Cyngor Celfyddydau Cymru

# Gwahoddiad i Dendro

## Cyflwyno cyfres o sgyrsiau gan randdeiliaid am ehangu ymgysylltiad creadigol a diwylliannol â chymunedau Cymru.

Mawrth 2020

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cynnwys


1. Cefndir 3
2. Y cyd-destun 3
3. Y briff 4
4. Meini prawf 5
5. Amserlen 5
6. Cyllideb 5
7. Cyfraniad y Cyngor at y prosiect 6
8. Canlyniadau disgwyliedig a'r gofynion adrodd 6
9. Cyflwyno eich cynnig 6
10. Manylion y contract 6
11. Rhagor o wybodaeth 7
12. Dyddiad cau 7


hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth ar ffurf print bras, Braille, sain, Hawdd ei Ddeall ac Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg ar gais.

## 1. Cefndir

Cyngor Celfyddydau Cymru sy’n cyflwyno’r gwahoddiad yma i dendro.

Elusen annibynnol (rhif 1034245) a chorff a noddir gan Lywodraeth Cymru ydym. Cawsom ni ein sefydlu gan Siarter Frenhinol ym 1994. Ein hymddiriedolwyr yw'r aelodau mae Llywodraeth Cymru yn eu penodi i’n Cyngor.

Ni yw sefydliad ariannu a datblygu celfyddydau Cymru. Rydym ni’n dosbarthu arian y Llywodraeth a'r Loteri Genedlaethol ac yn codi arian ychwanegol o wahanol ffynonellau yn y sector cyhoeddus a phreifat.

## 2. Y cyd-destun

Un o'n blaenoriaethau pwysicaf yw helpu rhagor o bobl i fwynhau’r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Rydym ni’n cefnogi prosiectau sy'n dangos ymrwymiad cadarn i gysylltu â chynulleidfaoedd eang ac amrywiol.

Rydym ni am i gelfyddydau Cymru fod yn gyfoethog ac amrywiol gan adlewyrchu ein cymunedau gwahanol a chysylltu â gwahanol gynulleidfaoedd a chyfranogwyr. Mae’r egwyddorion yma yn ein cynllun corfforaethol, *Er budd pawb*.

Ein gweledigaeth yw cael sector celfyddydol sy'n gynhwysol, amrywiol a pherthnasol. Mae gan arian cyhoeddus i’r celfyddydau sawl diben:

- cynyddu dewis
- ei gwneud yn rhatach i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr
- annog arloesedd a mentro
- buddsoddi yn y gweithgareddau na fydd y sector masnachol yn eu hariannu

Ond mae hefyd yn cydnabod hawl yr holl gymdeithas i rannu ei chyflawniadau diwylliannol a chymryd rhan ynddynt, yn enwedig o gofio mai arian y trethdalwr sy’n talu amdanynt.

Bydd celfyddydau Cymru yn gryfach ac yn fwy perthnasol o gofleidio rhagor o bobl. Rydym ni’n cydnabod grym celfyddyd sy'n gynhwysol ac yn elwa ar dalent pob aelod o'n cymdeithas. Ond er gwaethaf ein hymdrechion dros y blynyddoedd, mae buddion arian cyhoeddus i’r celfyddydau yn aros yn gyfyngedig i gyfran fach o'r boblogaeth (fel arfer y gyfran gyfoethocaf, sydd wedi manteisio fwyaf ar addysg ac yn lleiaf amrywiol o ran ethnigrwydd). Hyn rydym ni am ei newid.

Rydym ni am fod yn rhan o gymdeithas sy'n coleddu cydraddoldeb ac yn dathlu gwahaniaeth – boed o ran hil, rhywedd, rhywioldeb, oed, iaith, anabledd neu gyfoeth.

Mae cymdeithas hael a goddefgar yn gynhwysol ac yn gwerthfawrogi talentau pob un o'i dinasyddion.

## 3. Y briff

Rydym ni wedi ymrwymo i'r egwyddor o ddemocratiaeth ddiwylliannol. Rhaid i'n cymunedau berchen ar brosiectau celfyddydol o'r dechrau i'r diwedd. Rydym ni'n ymrwymedig i ymgysylltu'n ddwfn ac ystyrlon â chymunedau, yn enwedig y rhai sydd wedi gwahanu oddi wrth y celfyddydau am nifer o resymau - economaidd, cymdeithasol, daearyddol ac ati.

Mae ymchwil wedi dangos inni, er gwaethaf mentrau targedol, nad ydym ni'n cyrraedd yn ddwfn i gymunedau difreintiedig sydd wedi ymddieithrio. Mae gennym ragor i'w wneud i sicrhau cyfle cyfartal celfyddydol yn ein cymunedau.

Y llynedd roeddem ni wedi comisiynu darn o waith am ymgysylltu â'n cymunedau. Nod yr ymchwil oedd cynnig ffyrdd o wneud hyn yn well. Awgrymodd yr adroddiad terfynol gamau nesaf posibl , ond mae yna ddarn pwysig arall o waith sydd ei angen arnom. Rydym ni'n bwriadu ei gomisiynu nawr.

Ymhen y rhawg rydym ni am gael rhaglen strategol sy'n hyrwyddo ymgysylltu eang a chynhwysol â'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Ond cyn inni wneud, rhaid inni glywed oddi wrth y rhanddeiliaid cymunedol am gymryd rhan yn y celfyddydau a pha gymorth fyddai o ddefnydd.

Nid y ni o reidrwydd yw'r bobl iawn i wneud y gwaith, felly rydym ni'n chwilio am gymorth.

Rydym ni'n rhagweld y byddwn ni'n comisiynu un neu ragor o sefydliadau neu unigolion i wneud gwaith ar ein rhan. Bydd hyn yn golygu ymgysylltu ag amrywiaeth o grwpiau a chynrychiolwyr cymunedol i gael gwybod beth maen nhw ei eisiau mewn rhaglen i ariannu gweithgarwch creadigol lleol. Hoffem ni wybod sut byddai'n gweithio i ehangu'r ymgysylltiad â'r celfyddydau.

Cymunedau fydd canolbwynt yr ymchwil. Nid ydym ni am gael darn o waith sydd dim ond yn sôn am y bobl rydym ni eisoes yn gweithio gyda nhw. Mae gennym ddiddordeb byw mewn deall yn well uchelgais, buddiannau a rhwystredigaethau'r rheini nad yw'r celfyddydau "at eu dant" am ba reswm bynnag.

Wrth gwrs, nid yw cymunedau Cymru yn unffurf. Bydd gan wahanol gymunedau wahanol hunaniaeth yn ôl eu hiaith, eu cymdogaeth, eu rhywedd a'u hethnigrwydd. Bydd llawer o resymau, felly, am y rhwystrau.

Nid ydym ni am fynnu sut i wneud y gwaith, ond byddwn ni'n disgwyl y byddai'n cynnwys rhywbeth ar hyd y llinellau yma:

- gweithio gyda chynrychiolwyr y gymuned a/neu grwpiau perthnasol i gynnal sgyrsiau creadigol a chasglu barn am ymgysylltu creadigol a diwylliannol
- awgrymu cymorth a ffyrdd o weithio i wella neu gynyddu cyfleoedd
- nodi elfennau allweddol mewn rhaglen strategol i ehangu'r ymgysylltiad â'r celfyddydau, yn enwedig â'n cymunedau mwyaf difreintiedig ac ymddieithriedig (rhaid i'r asesiad ddeillio'n uniongyrchol o waith ystyrlon â'r cymunedau)

Nid oes gennym farn bendant am sut i gyflawni'r gwaith. Gallai fod yn un comisiwn sy'n targedu ystod o gymunedau ledled Cymru, neu'n ddarnau o waith byrrach a llai sy'n canolbwyntio ar gymunedau penodol. Ond rhaid bodloni gofynion y briff.

## 4. Meini prawf

Bydd ceisiadau llwyddiannus yn rhoi tystiolaeth ymarferol o'r canlynol:

- dealltwriaeth o flaenoriaethau ac amcanion y Cyngor
- dealltwriaeth drylwyr o gydraddoldeb ac amrywiaeth
- profiad o gynnal prosiectau tebyg mewn mannau eraill
- sgiliau uchel o ran gweithio gyda chymunedau amrywiol
- gallu dechrau'n gyflym a gweithio'n ddwys i fodloni ein hamserlen dynn
- methodoleg effeithiol sy'n cynrychioli gwerth da am arian
- hanes o lwyddo gyda phrosiectau cymhleth yn brydlon ac yn ôl y gyllideb

Swyddogion y Cyngor fydd yn penderfynu ynghylch rhoi'r contract gan ofyn a yw'n gweddu â gofynion y briff.

## 5. Amserlen

Bydd y prosiect yn dechrau yn Ebrill 2020 ac yn cael ei gyflawni cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Rhowch inni amserlen fanwl.

## 6. Cyllideb

Rydym ni'n barod i ystyried gwahanol syniadau ac felly nid ydym ni wedi pennu cyllideb ar hyn o bryd. Ond mae gwerth am arian yn un o'r meini prawf.

Rhaid i unrhyw gynnig gynnwys yr holl gostau gan gynnwys TAW.

## 7. Cyfraniad y Cyngor at y prosiect

Y Cyngor fydd yn gweinyddu’r tendr.

Gallwn ni hefyd awgrymu cysylltiadau a mewnbwn arall, fel y bo'n briodol.

## 8. Canlyniadau disgwyliedig a'r gofynion adrodd

Byddwn ni’n disgwyl ichi gysylltu'n rheolaidd a pharhaus â swyddogion y Cyngor.

Byddwn ni’n disgwyl i'r gwaith gynnwys:

a. cyswllt uniongyrchol â chynrychiolwyr/grwpiau/unigolion cymunedol allweddol - diben hyn fydd casglu eu mewnbwn am sut bydd y rhaglen strategol a sut y bydd yn gweithio'n ymarferol i hyrwyddo ymgysylltiad eang a chynhwysol â'n cymunedau mwyaf difreintiedig

b. cyflwyno'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion ar ffurf adroddiad ysgrifenedig

c. cyflwyniad, os gofynnwn ni am un, i swyddogion y Cyngor a/neu'r Cyngor ei hun am ganfyddiadau'r ymchwil

Eiddo’r Cyngor fydd allbwn y gwaith, iddo ei ddefnyddio a'i ddosbarthu yn ôl ei ewyllys.

## 9. Cyflwyno eich cynnig

E-bostiwch eich cynnig at Amanda Loosemore: amanda.loosemore@celf.cymru gan fanylu am y canlynol:

- Eich dull o fynd ati
- Amserlen y prosiect, gan gynnwys dyddiad gorffen
- Manylion am y gweithwyr a fydd yn gwneud y gwaith
- Sawl diwrnod fydd eu hangen a'r gyfradd ddyddiol
- Cyfanswm y ffi, gan gynnwys TAW a threuliau

## 10. Manylion y contract

Contract cyfnod penodedig fydd ar gyfer y gwaith.

Dylai eich cyllideb gynnwys TAW (lle y bo'n briodol) a chostau teithio a threuliau eraill fydd yn codi’n uniongyrchol o’r gwaith.

## 11. Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch ag:

Amanda Loosemore, Rheolwr Portffolio

E-bost: amanda.loosemore@celf.cymru

Ffôn: 01267 230337 / 07967 161763

## 12. Dyddiad cau

Dyddiad cau cyflwyno: **5pm ddydd Gwener 24 Ebrill 2020**

**Ni fyddwn ni'n derbyn unrhyw gyflwyniadau hwyr neu anghyflawn.**